WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 691A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tracey Davies, Geraint Norman, Richard Harries a David Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio'r cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y BIP. Er hynny, rwyf wedi cyhoeddi adroddiad sylweddol ychwanegol ochr yn ochr â'r dystysgrif archwilio a dynnai sylw at y £2.3 miliwn o froceriaeth a dderbyniwyd yn 2012-13 a'r heriau ariannol sylweddol yn 2013-14 a thu hwnt | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 10 |
| Mae trefniadau rheoli ariannol y BIP yn gadarn, er ei bod yn bosibl nad yw rhai o'r camau a roddwyd ar waith i gyflawni balans ariannol yn gynaliadwy ac mae'r BIP yn annhebygol iawn o gyflawni balans ariannol eleni | 11 |
| Yn gyffredinol, mae trefniadau llywodraethu'r BIP wedi parhau i esblygu ac aeddfedu, er bod angen cryfhau agweddau ar lywodraethu ansawdd a rheoli risgiau o ran capasiti rheolaeth ganol a seilwaith TGCh | 13 |
| Mae fy ngwaith arall ar berfformiad wedi nodi arfer da a lle i wella'r defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd | 20 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 25 |
| Ffi archwilio | 26 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda (y BIP) yn ystod 2013. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y BIP yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r BIP i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**2.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol, yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r BIP, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion ar agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**3.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Chomisiynu. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2014, yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a bydd pob aelod o'r BIP yn cael copi ohono. Rydym yn annog yn gryf y dylai'r BIP gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Wedi i'r Bwrdd ei ystyried, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd hefyd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ei hun (www.wao.gov.uk).

**4.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran1: Archwilio'r cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y BIP. Er hynny rwyf wedi cyhoeddi adroddiad sylweddol ychwanegol ochr yn ochr â'r dystysgrif archwilio a dynnai sylw at y ffaith fod angen £2.3 miliwn o froceriaeth ar y BIP ar ddiwedd y flwyddyn i'w alluogi i gyrraedd ei derfyn adnoddau refeniw statudol. Roedd yr adroddiad sylweddol ychwanegol hefyd yn tynnu sylw at fy mhryderon ynglŷn â'r her ariannol sylweddol sy'n wynebu'r BIP yn 2013-14 a thu hwnt.

**6.** Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd datganiadau ariannol y BIP yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- roedd gan y BIP amgylchedd rheolaeth effeithiol i leihau risgiau camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol er bod rhai meysydd i'w gwella; ac
- roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y BIP yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad er bod rhai gwendidau sy'n galw am gamau rheoli.

**7.** Llwyddodd y BIP i gadw at ei derfyn adnoddau arian cyfalaf o £22.9 miliwn ar gyfer 2012-13.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**8.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r BIP ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi archwilio cadernid trefniadau rheoli ariannol y BIP a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, yn cynnwys llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad y claf/defnyddiwr. Hefyd cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad ar feysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi f'arwain at y casgliadau canlynol:

### Mae trefniadau rheoli ariannol y BIP yn gadarn, er ei bod yn bosibl nad yw rhai o'r camau a roddwyd ar waith i gyflawni balans ariannol yn gynaliadwy ac mae'r BIP yn annhebygol iawn o gyflawni balans ariannol eleni

**9.** Dyma ganfyddiadau allweddol fy adolygiad o drefniadau rheoli ariannol y BIP:

- Sicrhawyd balans ariannol yn 2012-13 drwy gyfuniad o raglenni gwella costau o fewn y BIP, cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a broceriaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae angen dull mwy cynaliadwy o wella costau yn y dyfodol i fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd a pheiriannau a chyfarpar.
- Ar gyfer 2013-14, mae'r BIP wedi parhau i wella effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli cyllideb ac mae wedi asesu lefel yr arbedion sydd eu hangen i sicrhau balans ariannol. Fodd bynnag, yn 2013-14 nid oes gan y BIP gynllun ariannol cytbwys ac ar hyn o bryd ceir bwlch cyllid o tua £19 miliwn.

### Yn gyffredinol, mae trefniadau llywodraethu'r BIP wedi parhau i esblygu ac aeddfedu, er bod angen cryfhau agweddau ar lywodraethu ansawdd a rheoli risgiau o ran capasiti rheolaeth ganol a seilwaith TGCh

**10.** Canfu fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r BIP y canlynol:

- mae'r strwythur sefydliadol wedi'i gryfhau ac mae datblygiadau diweddar yn cynnig sylfaen gref ar gyfer cyflawni amcanion y BIP er bod rhai risgiau o hyd o ran capasiti a gallu ar lefel rheolaeth ganol;
- mae newidiadau i strwythur a gweithrediad pwyllgorau ynghyd â threfniadau gwell ar gyfer rheoli risg wedi cryfhau fframwaith sicrwydd y BIP ymhellach ac er bod rhagor o gyfleoedd i wella, mae'r newidiadau cynnar yn galonogol;
- mae trefniadau rheoli perfformiad wedi parhau i gryfhau er bod rhagor i'w wneud eto i sicrhau data o ansawdd da ac i ddatblygu trefniadau mwy cynhwysfawr ar gyfer llunio adroddiadau ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau;
- mae llywodraethu gwybodaeth wedi'i gryfhau ymhellach er bod seilwaith TGCh y BIP yn parhau i gyflwyno risgiau sylweddol hyd yn oed gyda'r rheolaethau;

- mae'r BIP wedi ymrwymo i wrando ar gleifion a staff ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau trefniadau gweithredol ar gyfer cofnodi profiad y claf, mynd i'r afael â phryderon ac ymateb iddynt, a defnyddio gwybodaeth yn fwy systematig ar gyfer llywio dysgu sefydliadol;
- mae'r BIP wedi arddangos ei ymrwymiad i gryfhau trefniadau sicrhau ansawdd a diogelwch ond mae'n cydnabod bod angen i arweinwyr fod yn fwy gweladwy ac ymgysylltu mwy â staff; ac
- mae'r BIP yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll ond mae angen gwaith pellach ar hyn.

## Mae fy ngwaith arall ar berfformiad wedi nodi arfer da a lle i wella'r defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd

**11.** Mae canfyddiadau allweddol fy adolygiad o ddefnydd y BIP o adnoddau fel a ganlyn:

- ceir ymrwymiad i sicrhau lefelau staffio priodol ond mae angen cynlluniau mwy hirdymor ar gyfer y gweithlu i gefnogi'r strategaeth gwasanaethau clinigol a chynnal y ffocws ar arfarnu a datblygu staff;
- yn seiliedig ar adolygiad o berfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol, mae perfformiad y BIP at ei gilydd yn cymharu'n dda â gweddill Cymru, er bod cyfle o hyd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd rhai gwasanaethau;
- mae'r BIP wedi gwneud cynnydd da yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, ac er bod ganddo gynlluniau ar waith i gyflawni rhai arbedion posibl, ceir rhagor o gyfleoedd i bresgripsiynu'n ddiogel ac yn ddarbodus drwy wella'r cysylltiadau rhwng strategaeth a chynlluniau gweithredu a chryfhau strwythurau sefydliadol; ac
- mae'r BIP wedi gwneud cynnydd yn mynd i'r afael ag argymhellion yn codi o'n gwaith blaenorol ar staffio wardiau er bod angen gwaith pellach mewn nifer o feysydd pwysig.

**12.** Hoffem ddiolch o galon i staff ac aelodau annibynnol y BIP am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**13.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y BIP yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013. Cyflawnir fy ngwaith yn y BIP mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y BIP, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi'u cyflawni i'r diben a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun bod y BIP wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**14.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y BIP;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r BIP, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y BIP yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y BIP;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**15.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r BIP eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**16.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**17.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y BIP, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

# Adran 1: Archwilio'r cyfrifon

**18.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y BIP ar gyfer 2012-13. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**19.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y BIP, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y BIP a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**20.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs). Wrth wneud y gwaith hwn, rwyf hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y BIP; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y BIP ar gyfer 2012-13, er i mi gyhoeddi adroddiad sylweddol ychwanegol ochr yn ochr â'r dystysgrif archwilio yn tynnu sylw at y froceriaeth a dderbyniwyd yn 2012-13 a'r heriau ariannol sylweddol yn 2013-14 a thu

### Paratowyd cyfrifon y BIP yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol er fy mod wedi cyhoeddi adroddiad sylweddol ychwanegol ochr yn ochr â'r dystysgrif archwilio yn tynnu sylw at y froceriaeth a dderbyniwyd yn 2012-13 a'r heriau ariannol sylweddol yn 2013-14 a thu hwnt

**21.** Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft yn amserol erbyn y dyddiad cau ar 3 Mai 2013. Paratowyd datganiadau ariannol o ansawdd da ac at ei gilydd, cawsom fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Hefyd cafwyd tystiolaeth fod gwiriadau sicrhau ansawdd wedi'u cynnal ar y

datganiadau ariannol, yn cynnwys adolygiad manwl gan y Pwyllgor Archwilio, adolygiad dadansoddol cynhwysfawr ac adroddiad yn crynhoi'r penderfyniadau a'r amcangyfrifon pwysicaf.

**22.** Mae fy nhîm wedi parhau i weithio gyda staff Cyllid y BIP drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod modd nodi problemau posibl a'u datrys yn amserol. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cynhaliodd fy nhîm sesiwn ddysgu ôl-brosiect ar y cyd. Bydd hyn yn helpu i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2013-14 y BIP.

**23.** Yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn, fel y nodwyd yn fy Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol, i Bwyllgor Archwilio'r BIP ym mis Mehefin 2013.

**24.** Dangosodd fy adroddiad fy mod wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y BIP ar gyfer 2012-13. Er hynny rwyf i wedi cyhoeddi adroddiad sylweddol ychwanegol ochr yn ochr â'r dystysgrif archwilio a dynnai sylw at y ffaith fod angen £2.3 miliwn o froceriaeth ar y BIP ar ddiwedd y flwyddyn i'w alluogi i gyrraedd ei derfyn adnoddau refeniw statudol. Roedd yr adroddiad sylweddol ychwanegol hefyd yn tynnu sylw at fy mhryderon ynglŷn â'r her ariannol sylweddol sy'n wynebu'r BIP yn 2013-14 a thu hwnt.

**25.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol hefyd, cynhaliais yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y BIP ar 31 Mawrth 2013, a pharatowyd y ffurflen y unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio i raddau helaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**26.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol elusennol y BIP bron â bod wedi'i gwblhau ac nid oes unrhyw faterion sylweddol yn codi ar hyn o bryd. Ystyriodd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol fy adroddiad ar y datganiadau ariannol ym mis Rhagfyr 2013.

### Roedd gan y BIP amgylchedd rheolaeth effeithiol i leihau risgiau camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol er bod rhai meysydd i'w gwella

**27.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol er mwyn asesu a yw'n rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich amgylchedd rheolaeth fewnol.

**28.** Yn dilyn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a ddarparir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, deuthum i'r casgliad fod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn bodloni *Safonau Archwilio Mewnol GIG Cymru 2009* a bod rhai meysydd allweddol sy'n rhaid eu gwella er mwyn sicrhau cysondeb pellach. Mabwysiadwyd Siarter Archwilio Mewnol newydd gan y BIP ym mis Ionawr 2013 ac mae datblygiadau eraill a gynlluniwyd eisoes ar y gweill er mwyn gwella'r gwasanaeth i

gyrff iechyd Cymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio Mewnol ar gyfer Cymru gyfan.

**29.** Mae'r gwaith a wneuthum yn cefnogi barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw'n asesiad o waith archwilio mewnol o dan drefn newydd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Preifat (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013) mae gofyn i sefydliadau gynnal asesiad allanol o'r gwasanaeth archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae'n mynd y tu hwnt i'r gwaith y mae archwilwyr allanol yn ei wneud er mwyn ymddiried mewn gwaith archwilio mewnol neu i gael sicrwydd ganddo.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y BIP yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad er bod rhai gwendidau sy'n galw am gamau rheoli

**30.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y BIP a fyddai'n effeithio ar fy marn.

**31.** Mae Archwilio Mewnol wedi cofnodi rhai gwendidau system sy'n galw am gamau rheoli parhaus. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i gryfhau'r gwendidau rheolaeth a nodwyd yn yr adroddiadau hyn ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar gynnydd.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**32.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud ystod o waith archwilio perfformiad yn y BIP dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y BIP, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r BIP drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, gyda phwyslais penodol ar lywodraethu ansawdd a chadernid y trefniadau ar gyfer asesu profiad y claf/defnyddiwr;
- defnydd penodol o berfformiad adnoddau yn erbyn targedau gwasanaeth allweddol i sicrhau effeithlonrwydd, ansawdd a mynediad at wasanaethau; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y BIP yn mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar staffio wardiau.

**33.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Yn gyffredinol, mae trefniadau rheoli ariannol y BIP yn gadarn, er ei bod yn bosibl nad yw rhai o'r camau a roddwyd ar waith i gyflawni balans ariannol yn gynaliadwy ac mae'r BIP yn annhebygol o gyflawni balans ariannol eleni

### Sicrhawyd balans ariannol yn 2012-13 drwy gyfuniad o raglenni gwella costau o fewn y BIP, cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a broceriaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae angen dull mwy cynaliadwy o wella costau yn y dyfodol i fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd a pheiriannau a chyfarpar

**34.** Nododd cynllun ariannol y BIP ar gyfer 2012-13 darged lleihau costau heriol iawn o £62.7 miliwn a tharged arbedion rhaglen gwella costau (CIP) gweddilliol (ar ôl cefnogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru) o £36.4 miliwn. Adlewyrchai hyn yr heriau a grëwyd gan y setliad arian gwastad i GIG Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Ym mis Mawrth 2012, gosododd y BIP gyllideb ond roedd bwlch o £12.8 miliwn i'w chydbwyso. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun ariannol diwygiedig terfynol ym mis Medi 2012.

**35.** Cafodd y BIP lwyddiant rhannol yn cyflawni ei Raglenni Gwella Costau yn ystod 2012-13 – y targed oedd £36.4 miliwn a llwyddodd y BIP i gyrraedd £28.6 miliwn, gan adael diffyg o £7.8 miliwn. Ond nid oedd gweithredoedd y BIP ar ei ben ei hun yn ddigon i gyrraedd y targed refeniw ariannol o £698.5 miliwn. Roedd angen cyllid ychwanegol o £8 miliwn gan Lywodraeth Cymru (a roddwyd i bob BIP yng Nghymru er mwyn cyflawni amcanion Gweinidogol 2012-13) ac roedd gofyn cael £2.3 miliwn o froceriaeth gan BIPau eraill i alluogi'r BIP i gyflawni balans ariannol.

**36.** Nid oedd y camau a gymerwyd i leihau costau yn gwbl gynaliadwy ac roeddent yn cynnwys rhai enillion cyfrifyddu technegol:

- Sicrhawyd £8.84 miliwn o arbedion drwy adolygiad untro o fantolenni costau presennol nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy.
- Sicrhawyd £3.3 miliwn o arbedion Gofal Iechyd Parhaus drwy ddatblygu a chanoli rhai gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd pwysau costau ychwanegol seiliedig ar alw o £1.9 miliwn yn gwneud y targed yn anodd ei gyrraedd, gan arwain at ddiffyg o £1.9 miliwn.
- Roedd targedau moderneiddio'r gweithlu o £15.4 miliwn yn oruchelgeisiol, ac ni chawsant eu cefnogi gan gynlluniau i ailgynllunio gwasanaethau. O ganlyniad i fethu â symud y strategaeth yn ei blaen i raddau helaeth, ni wireddwyd £12.9 miliwn o'r arbedion arfaethedig.
- Mae'n bosibl mai rhannol gynaliadwy yn unig fydd £6.5 miliwn o arbedion caffael yn y tymor hwy.

**37.** Yn debyg i'r rhan fwyaf o BIPau eraill, effeithiodd mesurau arbed arian ar y dull o ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys drwy flaenoriaethu gweithgaredd clinigol a gohirio rhai gweithgareddau eraill.

**38.** Yn 2012-13, cyrhaeddodd y BIP ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf o £22.9 miliwn. Fodd bynnag, rydym wedi amlygu'r ffaith fod gan y BIP tua £37.8 miliwn o asedau peiriannau a chyfarpar y pennir eu bod wedi dod i ben eu hoes economaidd (TGCh £8.6 miliwn, cyfarpar meddygol £27.9 miliwn a cherbydau/arall £1.3 miliwn). Rhagwelir y bydd asedau y pennwyd eu bod wedi dod i ben eu hoes yn codi 35 y cant pellach i £51 miliwn erbyn 31 Mawrth 2015. Mae asedau hŷn yn risg gweithredol sylweddol i'r BIP ac mae costau rhedeg, atgyweirio a chynnal a chadw asedau hŷn yn uwch yn gyffredinol.

**39.** Mae cyflwr ystâd (tir ac adeiladau) y BIP hefyd yn creu risgiau i'r BIP eu rheoli, er bod rhai gwelliannau amlwg ar sefyllfa blynyddoedd blaenorol. Ceir canlyniadau ariannol i gyflwr, ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a chostau ynni, fel a ganlyn:

- Cyflwr ffisegol – llwyddodd y BIP i leihau ei ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod y BIP â'r 'risg sylweddol' 2il uchaf yng Nghymru ar £24.8 miliwn gyda pheth gwelliant ar y flwyddyn flaenorol.
- Er bod perfformiad y BIP o ran cydymffurfiaeth Statudol/Diogelwch yn well na chyfartaledd Cymru ( ar 85.82 y cant), mae'n agos at, ond heb eto gyrraedd targed cyfredol Llywodraeth Cymru o 90 y cant.
- Mae'r safonau Diogelwch Tân wedi dangos gwelliant sylweddol ers 2010 ac maent bellach yn rhagori ar darged Llywodraeth Cymru o 90 y cant.
- Mae addasrwydd gweithredol wedi gwella ond nid yw eto wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 90 y cant.
- Cyrhaeddwyd targedau defnydd o ofod eto eleni.
- Gwelwyd peth gwelliant yn y defnydd effeithlon o ynni ar berfformiad y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r prif safleoedd, ac eithrio Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, yn perfformio'n sâl ar y cyfan, yn bennaf oherwydd dibyniaeth ar olew fel tanwydd.

Ar gyfer 2013-14, mae'r BIP wedi parhau i wella effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli cyllideb ac mae wedi asesu lefel yr arbedion sydd eu hangen i sicrhau balans ariannol. Fodd bynnag, yn 2013-14 nid oes gan y BIP gynllun ariannol cytbwys ac ar hyn o bryd ceir bwlch cyllid o tua £19 miliwn

**40.** Yng nghyd-destun blwyddyn arall o 'arian gwastad', mae cynllun ariannol 2013-14 a gyflwynwyd i Fwrdd y BIP ym mis Mawrth 2013 yn cynnwys nifer o risgiau:

- mae'r gyllideb a fantolwyd ar gyfer 2013-14 yn dibynnu ar sicrhau £56 miliwn (wyth y cant) o arbedion – ac mae peth o hwn heb gael ei glustnodi;
- mae swyddogion gweithredol a chyfarwyddwyr sirol yn y broses o lunio cynlluniau ar gyfer y gyllideb a chyflawni er mwyn cyrraedd y lefel ofynnol o Raglenni Gwella Costau; ac
- mae cyfran uchel o Raglenni Gwella Costau 2013-14 wedi'u rhaglennu ar gyfer ail hanner y flwyddyn, sy'n cynyddu'r risg i gyflawniad.

41. Nid yw'r oedi cyn cytuno a gweithredu cynlluniau ailgynllunio gwasanaethau a'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol wedi helpu'r sefyllfa ariannol. Ar ddiwedd mis Tachwedd 2013, roedd y BIP yn profi anawsterau sylweddol wrth geisio cyflawni balans ariannol ar gyfer 2013-14 ac ar hyn o bryd mae'r BIP yn rhagweld diffyg o £19 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

42. Wrth edrych ymlaen, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau'n heriol. Ar hyn o bryd, mae'r BIP yn gweithio ar gynllun gwasanaeth a chyllid tair blynedd ochr yn ochr â BIPau eraill Cymru. Bydd angen i'r BIP gytuno a gweithredu Strategaeth Gwasanaethau Clinigol sydd nid yn unig yn darparu gwasanaethau diogel o ansawdd da ond sydd hefyd yn fforddiadwy o fewn terfynau adnoddau ariannol y BIP.

## Yn gyffredinol, mae trefniadau llywodraethu'r BIP wedi parhau i esblygu ac aeddfedu, er bod angen cryfhau agweddau ar lywodraethu ansawdd a rheoli risgiau o ran capasiti rheolaeth ganol a seilwaith TGCh

### Mae'r strwythur sefydliadol wedi'i gryfhau ac mae datblygiadau diweddar yn cynnig sylfaen gref ar gyfer cyflawni amcanion y BIP er bod rhai risgiau o hyd o ran capasiti a gallu ar lefel rheolaeth ganol

43. Y llynedd, nodais feysydd ar gyfer eu datblygu o ran strwythur sefydliadol y BIP. Mae fy ngwaith yn 2013 wedi nodi y gwnaed cynnydd cadarnhaol ar fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

44. Mae gwaith arsylwi fy nhîm wedi nodi bod gan y BIP dîm gweithredol cydlynus a sefydlog. Dros y misoedd diweddar, mae'r BIP wedi ailddiffinio nifer o rolau gweithredol i gryfhau trefniadau llywodraethu a chefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol a gweithredol. Yn flaenorol, nodwyd ein pryderon ynglŷn â'r strwythur sefydliadol. Yn dilyn adolygiad gan ymgynghoriaeth allanol, mae'r BIP bellach yn cynllunio nifer o newidiadau. Bwriedir i'r newidiadau fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithio 'seilo', lleihau amrywio a symleiddio haenau rheoli. Dylai sicrhau hefyd fod y BIP yn cadw ei gysylltiadau â'r awdurdodau unedol ac yn cefnogi'r gwaith o ateb anghenion lleol.

45. Mae gan y BIP raglen arwain gynhwysfawr gyda'r nod o ddatblygu uwch-reolwyr a rheolwyr canol yn ogystal â chlinigwyr, er bod y BIP yn cydnabod bod capasiti a gallu rheolaeth ganol mewn rhai meysydd yn parhau'n broblem. Er fy mod yn cydnabod bod camau ar waith i fynd i'r afael â hyn, rwyf yn arbennig o bryderus ynglŷn â diffyg parhad a chapasiti uwch dîm rheoli Cyngor Ceredigion ac yn ystyried bod hyn yn risg penodol.

**46.** Mae'r Rhaglen Iechyd Poblogaeth yn dechrau ymffurfio gyda sefydlu wyth o Grwpiau Iechyd Poblogaeth. Arweinir y grwpiau gan glinigwyr ac maent yn amlbroffesiynol; y nod yw mynd ati'n strategol i sbarduno'r gwaith o ailgynllunio a newid gwasanaethau. Mae cysylltiadau eglur â'r Academi Gwella i gefnogi datblygiad timau ac unigolion. Mae'r BIP wedi sefydlu swydd rheoli rhaglen i gefnogi'r rhaglen, a dylai helpu i sicrhau ei bod yn cael ei rheoli'n effeithiol. Mae'r Rhaglen Iechyd Poblogaeth a'r ailstrwythuro arfaethedig yn gam cadarnhaol tuag at alluogi'r BIP i gyflawni ei amcanion strategol a gweithredol.

Mae newidiadau i strwythur a gweithrediad pwyllgorau ynghyd â threfniadau gwell ar gyfer rheoli risg wedi cryfhau fframwaith sicrwydd y BIP ymhellach ac er bod rhagor o gyfleoedd i wella, mae'r arwyddion cynnar yn galonogol

**47.** Ers fy ngwaith Asesu Strwythuredig blaenorol, gwnaed cryn dipyn o waith i gryfhau'r modd y mae pwyllgorau'r BIP yn gweithredu. Aeth Cadeirydd y BIP ati i adolygu a newid cadeiryddiaeth pob un o'r prif bwyllgorau. Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith yn ddiweddar ac yn ôl yr arwyddion cynnar, maent yn helpu i gryfhau fframwaith sicrwydd y BIP. Yn fwy cyffredinol, mae fy nhîm hefyd wedi sylwi ar y berthynas gadarnhaol ac adeiladol sydd rhwng yr aelodau annibynnol a swyddogion gweithredol.

**48.** Dynoda gwaith arsylwi fy staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd eu bod wedi'u trefnu'n dda ac yn canolbwyntio ar yr heriau a'r problemau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Caiff y Bwrdd ei gadeirio'n dda, caiff y materion eu crynhoi'n effeithiol, ac yn gyffredinol, ceir rheolaeth dda ar amser. Ceir trafod a herio agored yn y Bwrdd sy'n adeiladu ar y trafodaethau a'r dadlau sy'n digwydd yn y pwyllgorau. Fodd bynnag, rhaid i'r BIP wylio rhag y canfyddiad fod cyfarfod y Bwrdd i'w weld 'wedi'i orymarfer'. Awgryma ein harolwg o'r Bwrdd fod cyfleoedd o hyd i gryfhau'r Bwrdd ymhellach o ran yr angen i gynnwys pob maes arwyddocaol megis gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, mwy o ffocws ar brofiad y claf ac ansawdd a diogelwch.

**49.** Yn fwy cyffredinol, mae arsylwadau fy staff mewn Pwyllgorau a'n harolwg o aelodau'r Bwrdd yn amlygu bod lle i wella gweithrediad y pwyllgorau ymhellach o ran lleihau hyd agendâu, gwella ansawdd rhai papurau, mwy o ddefnydd o adroddiadau eithrio ac egluro camau gweithredu ac amserlenni ar ddiwedd pob eitem berthnasol.

**50.** Mae'r BIP wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadborth parhaus ar gyfleoedd i gryfhau'r Bwrdd a'r pwyllgorau ymhellach ac eisoes gwelwyd nifer o newidiadau cadarnhaol.

**51.** Y llynedd, nodais fod angen rhagor o waith i gryfhau ac ymgorffori rheoli risg o fewn y sefydliad. Gwelodd fy ngwaith yn 2013 fod y BIP wedi gwneud nifer o newidiadau cadarnhaol i ymgorffori prosesau risg. Cafodd y broses o sefydlu paneli risg, dan arweiniad cadeiryddion pwyllgorau craffu, dderbyniad cadarnhaol iawn gan staff gweithredol. Mae cadeiryddion pwyllgorau craffu yn gweithio drwy gofrestri risgiau a gwblhawyd gyda'r staff gweithredol cyfrifol ac yn herio pob agwedd. Mae hyn wedi darparu mewnwelediad gweithredol a chorfforaethol ac wedi cefnogi newidiadau cadarnhaol o ran y ffordd y caiff risgiau eu nodi a'u rheoli. Mae'r BIP yn cydnabod y bydd angen cymorth a chanllawiau pellach mewn rhai meysydd gweithredol.

**52.** Mae arsylwadau fy nhîm wedi nodi bod pwyllgorau'n rhoi mwy o ffocws ar risg bellach er bod angen gwaith pellach mewn rhai is-bwyllgorau i sicrhau bod yr agendâu yn cydymffurfio'n fwy amlwg â phroffil risg y BIP. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol bellach ar gael ar wefan y BIP drwy bapurau'r Bwrdd. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol bellach yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf sy'n wynebu'r BIP ond bydd angen i'r BIP sicrhau bod y gofrestr yn darparu cofnod cyflawn a chyfredol o risgiau mwyaf sylweddol y BIP.

### Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi parhau i gryfhau er bod rhagor i'w wneud eto i sicrhau data o ansawdd da ac i ddatblygu trefniadau mwy cynhwysfawr ar gyfer llunio adroddiadau ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau

**53.** Nododd fy ngwaith yn 2012 fod angen rhagor o waith ar gasglu gwybodaeth fwy ystyrlon i helpu i gryfhau gallu'r BIP i gynllunio, gwneud penderfyniadau a chraffu. Mae'r BIP wedi cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad a chaiff fframwaith sicrhau perfformiad newydd ei thanategu gan Uned Wybodaeth Fusnes. Dylai'r Uned gefnogi'r gwaith o ddatblygu data a gwybodaeth fwy integredig a thriongli gwybodaeth am berfformiad, adnoddau ac ansawdd.

**54.** Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2013, cyflwynwyd adroddiad Sicrhau Perfformiad wedi'i ddiwygio'n llwyr. Mae'r adroddiad diwygiedig yn cydymffurfio â'r nodau strategol ac yn cynnig darlun mwy integredig a chyfannol o berfformiad yn cwmpasu pum maes ansawdd. Mae hyn yn welliant arwyddocaol er bod cyfle i gryfhau adroddiadau ymhellach drwy gynnwys crynodeb o berfformiad, cymariaethau meincnodi allanol, dulliau o fesur llwyddiant, rhagolygon ac amrediad ehangach o adnoddau a dulliau i fesur profiad defnyddwyr.

**55.** Mewn blynyddoedd blaenorol, tynnais sylw at bryderon ynglŷn ag ansawdd data. Mae ein harolwg o aelodau'r Bwrdd a gwaith archwilio yn parhau i nodi pryderon ynghylch ansawdd a chywirdeb data. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i wella prosesau ansawdd data a sicrwydd fel rhan o'r fframwaith perfformiad ac er mwyn i'r Bwrdd gael gwell perchnogaeth ar y fframwaith. Mae'r BIP wedi sefydlu Grŵp Ansawdd Data gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod ansawdd data yn cael ei gymhwyso ar draws systemau'r BIP. Hefyd, sefydlwyd grŵp perchnogion gwybodaeth i ystyried gweithdrefnau ansawdd data yn ogystal â materion yn ymwneud ag adfer data mewn argyfwng.

**56.** Mae'r uned wybodaeth fusnes newydd yn bwriadu cefnogi adroddiadau perfformiad deallus ond mae angen hefyd iddi ddarparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd dulliau o fesur perfformiad allweddol. Cefais fy nghalonogi fod ansawdd data wedi'i gynnwys fel risg yn y gofrestr risgiau corfforaethol. Mae hyn yn dangos bod y BIP bellach wedi cydnabod pwysigrwydd darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd data a bod angen rhoi camau ar waith i gryfhau'r trefniadau presennol.

### Mae llywodraethu gwybodaeth wedi'i gryfhau ymhellach er bod seilwaith TGCh y BIP yn parhau i gyflwyno risgiau sylweddol hyd yn oed gyda'r rheolaethau

**57.** Y llynedd, deuthum i'r casgliad fod angen atebion TGCh cynaliadwy i gynnal gwasanaethau cyfredol yn ddiogel. Eleni, mae fy nhîm wedi dod i'r casgliad fod y seilwaith TGCh yn parhau'n risg sylweddol ac nad oes atebion cynaliadwy wedi'u clustnodi.

**58.** Mae'r BIP yn ymwybodol o'r risgiau ac mae ganddo reolaethau ar waith i'w lliniaru. Fodd bynnag, mae prinder arian cyfalaf a seilwaith TGCh sy'n heneiddio yn creu risgiau sylweddol i barhad busnes. Ni lwyddodd y BIP yn ei gais i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol i gefnogi'r seilwaith TGCh; ac mae cyfalaf Disgresiynol wedi gostwng o £750,000 i £200,000. O ganlyniad i hynny, mae'n rhaid i'r tîm TGCh weithio'n galed i roi atebion ar waith er mwyn sicrhau bod systemau'n parhau i weithio.

**59.** Mewn blynyddoedd blaenorol, nodais feysydd ar gyfer eu datblygu mewn perthynas â threfniadau llywodraethu gwybodaeth y BIP a nodwyd gwelliannau yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Eleni, daeth fy nhîm i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn parhau i gael eu cryfhau. Y Pecyn Llywodraethu Gwybodaeth yw'r fframwaith ar gyfer llywodraethu gwybodaeth yn y BIP ac mae'r prosesau tanategol wedi'u cryfhau a gwaith ar yr agenda hon yn parhau i ddatblygu. Fodd bynnag, ceir nifer fach o feysydd o hyd nad ydynt yn datblygu cystal ac mae'r BIP yn gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r rhain.

### Mae'r BIP wedi ymrwymo i wrando ar gleifion a staff ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau trefniadau gweithredol ar gyfer cofnodi profiad y claf, mynd i'r afael â phryderon ac ymateb iddynt, a defnyddio gwybodaeth yn fwy systematig ar gyfer llywio dysgu sefydliadol

**60.** Gwelodd fy ngwaith asesu strwythuredig fod y BIP yn arddangos ymrwymiad i wrando ar gleifion ac yn cydnabod gwerth llais y claf yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau, er ei fod yn cydnabod bod rhagor ganddo i'w wneud i ymgorffori'r dull hwn o weithredu.

**61.** Seiliwyd strategaeth ddrafft profiad y claf y BIP ar Fframwaith Cymru Gyfan ac mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae Datganiad Ansawdd Blynyddol y BIP yn dangos sut y defnyddir llais y claf i driongli gwybodaeth er mwyn gwella ansawdd a diogelwch. Ar hyn o bryd, rhywbeth i ymgyrraedd ato yw hyn i raddau helaeth a bydd angen ei adolygu ymhellach drwy waith yn y dyfodol.

62. Mae'r BIP yn ymwybodol o anghysonderau yn ei agwedd at brofiad y claf ac mae'n mapio ffyrdd o sicrhau bod dull systematig o wneud profiad y claf yn rhan annatod o'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Defnyddir amrywiaeth eang o ddulliau i ymgysylltu â'r defnyddiwr a chasglu barn cleifion gydag enghreifftiau da lle caiff profiadau defnyddwyr eu mesur yn rheolaidd.

63. Mae'r BIP yn gwneud defnydd cynyddol o brofiadau defnyddwyr i lywio'r modd y mae'n cynnal ac yn gwella ei wasanaethau. Hefyd, mae'r BIP wedi dechrau defnyddio hanesion am brofiadau cleifion mewn ffyrdd arloesol fel rhan o'r broses recriwtio. Fodd bynnag, dangosodd ein harolwg o'r Bwrdd nad oedd wyth o'r 16 a ymatebodd bob amser yn teimlo eu bod yn gwybod beth y mae defnyddwyr yn ei feddwl o'r gwasanaethau a gawsant ac er bod yr adroddiadau perfformiad newydd bellach yn cynnwys dulliau o fesur profiad defnyddwyr, canolbwyntio ar ofal nyrsio mewn ysbytai acíwt y mae'r rhain a dylent fod yn ehangach.

64. Unigolion gwahanol sy'n weithredol atebol am yr amrywiol agweddau ar gwynion a phryderon. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn atebol am gwynion, y Cyfarwyddwr Meddygol yn atebol am ddigwyddiadau, y Cyfarwyddwr Nyrsio yn atebol am brofiad y claf a Chyfarwyddwr y Gweithlu yn atebol am bryderon staff. Nodaf fod y BIP yn credu bod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda a bod Cronfa Risg Cymru wedi cefnogi'r farn hon yn eu hasesiad blynyddol ar gyfer 2013. Fodd bynnag, ceir risg fod gwasgaru cyfrifoldebau o'r fath ar draws nifer o staff uwch yn lleihau gallu'r sefydliad i adolygu a rheoli'r materion hyn yn gyfannol. Dyma faes y mae angen i'r BIP gadw llygad manwl arno felly.

65. Mae'r timau corfforaethol o dan arweiniad yr arweinwyr gweithredol yn darparu hyfforddiant, cymorth a chanllawiau i dimau gweithredol ac yn arwain ymchwiliadau difrifol. Penaethiaid Nyrsio Sirol sy'n gyfrifol am gydlynu materion ansawdd a diogelwch o fewn y siroedd, sy'n cynnwys dyrannu cyfrifoldeb dros reoli digwyddiadau a phryderon.

66. Canfu ein hadolygiad brosesau, systemau a pholisïau eglur ar gyfer ymdrin â phryderon a chwynion, gyda chanllawiau cam wrth gam da a phecynnau cymorth i swyddogion ymchwilio.

67. Dylai cynnwys y timau corfforaethol canolog yn y broses o ddatrys cwynion a phryderon â blaenoriaeth uwch sicrhau bod y BIP a rheolwyr lleol yn gwneud defnydd o sgiliau ac arbenigedd gwerthfawr yn y maes hwn. Hefyd, dylai'r trefniadau annog mwy o berchnogaeth ar lefel weithredol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau bob amser yn arwain at weithredu prosesau'n gadarn. Mae'r BIP yn barod iawn i gydnabod nad yw'n ymateb i bryderon yn amserol a bod ôl-groniad annerbyniol ohonynt. Mae'r Ombwdsmon wedi bod yn feirniadol o'r ôl-groniad o gwynion a digwyddiadau a'r ffordd y mae'r BIP yn ymateb i'r rhain.

**68.** Mae'r BIP wedi cwblhau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem o'r rhesymau dros yr oedi. Mae diffyg adnoddau corfforaethol canolog yn un o'r ffactorau dros yr oedi, fel y mae pwysau gweithredol ar y staff sy'n rhan o'r gwaith adolygu ac ymchwilio i gwynion a phryderon yn lleol. Hefyd, mae'r ffordd y bydd timau sirol yn ymdrin â chwynion a phryderon yn anghyson ac mewn rhai ardaloedd gwelwyd diffyg perchnogaeth a blaenoriaeth i ddatrys cwynion a digwyddiadau. Mae gan y BIP gynllun trosiant ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ac mae'n rheoli perfformiad y sefyllfa'n gadarn. Caiff hyn ei gefnogi gan adolygiad system gyfan i adolygu prosesau ac adnoddau. Er bod arwyddion cynnar fod ymatebolrwydd yn gwella, mae'r gwelliant yn anghyson o un ardal i'r llall.

**69.** Gwelodd fy ngwaith fod y BIP wedi datblygu trefniadau corfforaethol eglur ar gyfer gwrando ar staff a mynd i'r afael â'u pryderon. Yn ddiweddar, lansiodd y BIP gynllun cyfathrebu cynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'i ddull o leisio pryder mewn modd mwy cadarnhaol drwy ymgyrch o'r enw 'See It... Say It' i helpu staff i deimlo'n fwy cysurus ynglŷn â lleisio pryder. Mae dull y BIP yn cynorthwyo staff i leisio pryderon yn anffurfiol a'u datrys yn gynt er bod pryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi hefyd. Er bod y broses yn cynorthwyo staff i leisio pryderon, mae angen i'r BIP 'brofi' i weld a yw'r broses yn gweithio yn ôl y bwriad.

**70.** Roedd arolwg Staff y GIG yn cynnwys nifer o ymatebion negyddol yn enwedig mewn perthynas â barn staff ar ansawdd gofal, adnoddau dynol ac arferion rheoli, ac ymddiriedaeth a chyfathrebu. Mewn ymateb, datblygodd y BIP gynllun gweithredu a nawr rhaid iddo fynegi i'r holl staff sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â nhw i ymdrin â'r ymatebion. Mae Grŵp Llywio Diwylliant a Grŵp Ymgysylltu â Staff y BIP yn gweithio i newid diwylliant y sefydliad er mwyn sicrhau tryloywder ac agwedd fwy agored, gan barchu cyfrinachedd ar yr un pryd.

**71.** Gwelodd fy ngwaith fod y BIP wedi ymrwymo i ddysgu gwersi o bryderon a gwelsom nifer o enghreifftiau cadarnhaol o ddysgu a gwella. Mae dysgu'n digwydd mewn amryw o ffyrdd ar lefel gorfforaethol a gweithredol. Mae pwyllgorau a grwpiau amrywiol wedi'u rhoi ar waith ar lefel gorfforaethol a gweithredol i drafod ac ystyried dysgu gwersi. Er bod enghreifftiau eglur o gysylltu a rhannu rhwng rhai grwpiau, nid yw hyn i'w weld yn digwydd yn gyson bob amser.

**72.** Fodd bynnag, daeth adroddiad ar yr asesiad diweddar gan Gronfa Risg Cymru i'r casgliad fod angen symleiddio system y BIP ar gyfer dysgu gwersi a'i chymhwyso'n fwy cyson. Yn ogystal, mae'r BIP yn barod iawn i gydnabod bod angen rhannu ac ymgorffori'r broses o ddysgu yn systematig mewn ymarfer. Mae'r BIP yn cryfhau ei drefniadau ar gyfer dysgu gwersi o adborth defnyddwyr ond mae'r gwaith yn dal i ddatblygu.

## Mae'r BIP wedi arddangos ei ymrwymiad i gryfhau trefniadau sicrhau ansawdd a diogelwch ond mae'n cydnabod bod angen i arweinwyr fod yn fwy gweladwy ac ymgysylltu mwy â staff

**73.** Mae ansawdd a diogelwch yn flaenoriaeth uchel i'r BIP ac mae'r BIP wedi arddangos ei ymrwymiad i gryfhau ei drefniadau sicrhau ansawdd a diogelwch. Ym mis Ebrill 2013, cwblhaodd aelodau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch arolwg ar ei effeithiolrwydd. Roedd y canlyniadau'n sail i'r rhaglen o newid a roddwyd ar waith ym mis Awst 2013. Er bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo, gwelodd fy nhîm nifer o newidiadau cadarnhaol. Mae'r Pwyllgor bellach yn fwy strategol ac yn canolbwyntio mwy ar geisio sicrwydd gan wasanaethau, mae risg yn rhan fwy ystyrlon a chanolog o drafodaethau ac yn canolbwyntio ar y 10 risg allweddol mwyaf, ac mae data perfformiad gwell ar gael drwy ddangosfwrdd ansawdd, gan gynnal ffocws ar feysydd allweddol sy'n peri pryder. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella ymhellach o ran canolbwyntio mwy ar 'allanolynnau' ansawdd a diogelwch a defnyddio gwybodaeth am berfformiad i ragweld lle y gallai problemau fod yn datblygu, a rhagor o bwyslais ar fonitro'r gwaith o gwblhau camau gweithredu a gwneud swyddogion yn atebol. Hefyd, mae'r BIP yn y broses o ailddiffinio ac ailgynllunio'r is-bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch. Bydd angen i'r BIP asesu effeithiolrwydd y pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac effeithiolrwydd ei is-bwyllgorau yn barhaus.

**74.** Mae'r BIP wedi buddsoddi mewn arweinwyr sy'n canolbwyntio ar ansawdd drwy ei academi arwain a'i raglen datblygu arweinyddiaeth. Dengys y BIP barodrwydd cynyddol i fod yn fwy agored a thryloyw ac mae'r ffaith ei fod yn cynnwys mwy o ddogfennau ar ei wefan yn ddatblygiad i'w groesawu. Mae'n ystyried a ellid sicrhau bod rhagor o ddogfennau ar gael i'r cyhoedd.

**75.** Er bod rhai eithriadau cadarnhaol iawn, mae rhai o'r staff yn credu nad yw aelodau'r Bwrdd yn ddigon gweladwy. Awgryma Arolwg Staff y GIG fod diffyg ymddiriedaeth yn yr uwch-reolwyr a chanfyddiad o bellter rhwng lefelau uchaf ac isaf y sefydliad. Mae angen i'r BIP ddod o hyd i ffordd o sicrhau cysylltiad gwell rhwng y Bwrdd a'r tîm corfforaethol a staff gweithredol. Mae'r BIP yn rhoi rhai mesurau ar waith i fynd i'r afael â hyn ond mae angen rhagor o waith. Mae'r arfer o gerdded y wardiau yn cael ei gymell o'r newydd ac mae aelodau annibynnol ar fin cychwyn ar raglen o ymweliadau lle rhoddir rhybudd ac ymweliadau dirybudd. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyflawni yn cynllunio 'cymorthfeydd agored' ym mhob ysbyty.

**76.** Hefyd, mae'r BIP wedi datblygu 'Dangosfwrdd Ansawdd', gyda'r nod o ddod â metrigau ansawdd allweddol at ei gilydd a chreu ffocws i drafodaeth. Mae'r Dangosfwrdd yn dal i esblygu ac mae fy nhîm wedi nodi cyfleoedd i'w gryfhau ymhellach drwy gynnwys digwyddiadau byth bythoedd, lleisio pryderon, mesurau profiad y claf ehangach, hawliadau cyfreitha a chyfrifoldeb uwch-reolwyr.

**77.** Er bod y dangosfwrdd yn ddatblygiad cadarnhaol, byddai'r BIP yn elwa o gynhyrchu adroddiad ansawdd a diogelwch manwl. Byddai hyn yn cynnwys crynodeb o berfformiad, yn nodi ffactorau a chanlyniadau llwyddiant ac yn cynnwys camau gweithredu ac atebolrwydd eglur.

**78.** Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol a gymeradwywyd ym mis Medi 2013 yn gyfle i adrodd i'r cyhoedd mewn modd agored a gonest. Mae llawer o ymdrech wedi mynd i mewn i Ddatganiad Ansawdd Blynyddol y BIP, ond nododd fy adolygiad o'r datganiad gyfleoedd ar gyfer gwella. Mae hyn yn cynnwys cwtogi'r ddogfen, ei gwneud yn fwy cryno a sicrhau bod yr ieithwedd sy'n cael ei defnyddio yn hawdd i'r cyhoedd ei deall. Hefyd, er bod y datganiad wedi cydnabod bod rhai meysydd lle y gellid gwella perfformiad, rhaid iddo fod yn fwy agored a thryloyw ynglŷn â'r hyn nad oedd wedi mynd yn dda. Mae BIPau eraill wedi arddangos mwy o ddidwylledd yn eu datganiadau. Yn olaf, lle bynnag y bo modd mae angen i'r datganiad nodi'n eglur beth oedd effaith gwasanaethau o ran canlyniadau ac ansawdd.

### Mae'r BIP yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll ond byddai'n elwa ar wneud gwaith pellach ar hyn

**79.** Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru o dan bwerau statudol yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn arf effeithiol iawn ar gyfer canfod ac atal twyll a gordaliadau, ac mae'n helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

**80.** Cyflwynwyd data i ymarfer cyfredol y Fenter Twyll Genedlaethol gan y cyrff sy'n cymryd rhan ym mis Hydref 2012. Cafodd y data ei baru a rhyddhawyd y canlyniadau i'r cyrff ym mis Ionawr 2013. Mae'r BIP yn parhau i ymwneud â'r Fenter ac mae'n gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd gwahanol ond mae angen gwaith pellach ar olrhain y pariadau data posibl a nodwyd gan yr ymarfer.

## Mae fy ngwaith arall ar berfformiad wedi nodi arfer da a lle i wella'r defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd

### Ceir ymrwymiad i sicrhau lefelau staffio priodol ond mae angen cynlluniau mwy hirdymor ar gyfer y gweithlu i gefnogi'r strategaeth gwasanaethau clinigol a chynnal y ffocws ar arfarnu a datblygu staff

**81.** Y llynedd, nodais feysydd i'w datblygu mewn perthynas â chynllunio gweithlu'r BIP. Mae fy ngwaith yn 2013 wedi nodi fod peth cynnydd wedi'i wneud yn mynd i'r afael â sut y mae'n cynllunio ar gyfer ei weithlu a'r defnydd a wna ohono, ond mae nifer o heriau o hyd. Mae fy nhîm wedi nodi ymrwymiad i sicrhau lefelau staffio priodol er bod angen cynlluniau mwy hirdymor ar gyfer y gweithlu i gefnogi'r strategaeth gwasanaethau clinigol a chynnal y ffocws ar arfarnu a datblygu staff. Ni chyflawnwyd y newidiadau arfaethedig ar gyfer y gweithlu gan fod y BIP wedi methu â symud y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol yn ei blaen. Ar ôl cadarnhau'r strategaeth, bydd

angen cynlluniau eglur ar gyfer y gweithlu a chynlluniau ariannol sy'n cysylltu'n amlwg ag anghenion darparu gwasanaeth.

**82.** Ceir tystiolaeth fod y BIP yn cefnogi lefelau gweithlu diogel a chaiff hyn ei ddangos mewn nifer o ffyrdd. Mae'r BIP wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn staffio wardiau i gydymffurfio ag egwyddorion staffio wardiau Llywodraeth Cymru er y bydd cynnal hyn yn erbyn y pwysau ariannol yn allweddol. Hefyd, mae'r BIP wedi blaenoriaethu swyddi clinigol rheng flaen mewn paneli swyddi gwag. Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod y cyd-destun ariannol a'r angen am reolaeth lem ar swyddi gwag, mae rhai penderfyniadau blaenorol gan baneli swyddi gwag ynglŷn â swyddi nad ydynt ar y rheng flaen wedi bod yn wrthgynhyrchiol o ran bod swyddi heb eu llenwi wedi cael effaith negyddol ar wasanaethau'r BIP ar adegau. Mae'r BIP wedi datblygu'r dull o weithredu ymhellach i sicrhau ei fod yn ystyried yr effaith bosibl ar y gweithlu ehangach a'r modd y darperir gwasanaethau.

**83.** Mae'r BIP yn parhau i'w chael yn anodd recriwtio i swyddi clinigol sy'n achosi heriau gweithredol ac ariannol. Wrth reoli'r heriau hyn, mae'r BIP ar adegau wedi gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'r modd y darparir gwasanaethau er mwyn cynnal gwasanaethau diogel.

**84.** Y llynedd, fel yn y flwyddyn cynt, nodais fod lefelau cydymffurfio â chynlluniau datblygiad personol yn isel. Eleni, nododd fy nhîm fod y BIP yn parhau i dangyflawni o ran darparu cynlluniau datblygiad personol staff. Hefyd, ni chaiff anghenion hyfforddi staff eu diwallu bob amser.

### Yn seiliedig ar adolygiad o berfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol, mae perfformiad y BIP at ei gilydd yn cymharu'n dda â gweddill Cymru, er bod cyfle o hyd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd rhai gwasanaethau

**85.** Mae Asesiad Strwythuredig y flwyddyn hon wedi cynnwys dadansoddiad o ddata perfformiad sydd ar gael yn ganolog ar dargedau gwasanaeth allweddol. Defnyddiwyd y data i asesu i ba raddau y mae'r BIP yn darparu gwasanaethau hygyrch, economaidd, o ansawdd da i gleifion.

**86.** Nododd fy adolygiad o'r data ar gyfer Hywel Dda fod mesurau economaidd ac effeithlonrwydd y BIP yn well na chyfartaledd Cymru i raddau helaeth, ac mewn rhai elfennau mae'n perfformio ymhlith y goreuon. Eto i gyd, mae cyfleoedd i wella effeithlonrwydd o hyd, yn enwedig ar gyfer triniaeth ddewisol ar y diwrnod derbyn i'r ysbyty, sydd wedi gwaethygu, a bellach mae perfformiad y BIP ymhlith y gwaethaf drwy Gymru.

**87.** Mae mesurau ansawdd y BIP yn well na chyfartaledd Cymru i raddau helaeth ac mewn rhai elfennau mae ymhlith y rhai sy'n perfformio orau, er bod y gyfradd o gleifion strôc sy'n derbyn gofal mewn lleoliad addas o fewn 24 awr yn amrywio ac er ei fod yn un o'r rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru, nid yw'n cyrraedd targed Llywodraeth Cymru. Hefyd, wrth ymateb i arolwg staff y GIG, roedd staff y BIP yn llai cadarnhaol na'r cyfartaledd drwy Gymru o ran eu canfyddiadau o ymrwymiad uwch-reolwyr i ofal cleifion ac ynglŷn â safonau gofal.

**88.** Cymysg yw perfformiad y BIP o ran sicrhau gwasanaethau sy'n amserol ac yn hygyrch. Mae perfformiad gofal heb ei drefnu ymhlith y gorau yng Nghymru ac yn dilyn cyfnod o berfformio'n wael, mae ei berfformiad o ran amserau aros am driniaeth ddewisol wedi gwella'n sylweddol, ac mae'n rhagori ar y cyfartaledd drwy Gymru. Fodd bynnag, nid yw targedau hygyrchedd gofal canser yn cael eu cyrraedd ac ar hyn o bryd, maent yn is na'r cyfartaledd drwy Gymru. Oedi mewn canolfannau trydyddol yw'r rheswm am hyn yn rhannol.

Mae'r BIP wedi gwneud cynnydd da yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, ac er bod ganddo gynlluniau ar waith i gyflawni rhai arbedion posibl, ceir rhagor o gyfleoedd i bresgripsiynu'n ddiogel ac yn ddarbodus drwy wella'r cysylltiadau rhwng strategaeth a chynlluniau gweithredu a chryfhau strwythurau sefydliadol

**89.** Mae fy ngwaith ar arferion presgripsiynu meddygon teulu wedi canmol y BIP ar ei strategaeth bum mlynedd i integreiddio rheoli fferyllfeydd a meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ynghyd â'r camau gweithredu a'r trefniadau monitro sy'n cefnogi'r strategaeth honno. Mae'r strategaeth yn cefnogi newid cyffredinol y BIP o ofal mewn ysbytai i ofal yn y gymuned. Mae cynlluniau blynyddol manwl i arbed arian ar bresgripsiynu yn pennu rhaglen waith eglur er nad yw'r camau gweithredu sy'n cefnogi'r strategaeth wedi'u blaenoriaethu a gallent fod yn fwy penodol.

**90.** Mae'r strategaeth yn cyfeirio at broblemau iechyd byd-eang megis y cynnydd mewn diabetes, ac mae wedi nodi camau gweithredu priodol i reoli'r broses o gyflwyno cyffuriau newydd, er na ddefnyddiwyd ymgysylltiad â chleifion a rhanddeiliaid yn y gwaith o'i datblygu. Mae'r strategaeth hefyd yn cyfeirio at yr angen am reolaeth well ar y cynnydd yn y bil presgripsiynu gofal sylfaenol ac mae dadansoddiadau ariannol manwl yn cefnogi'r cynlluniau blynyddol i arbed arian mewn gofal sylfaenol. Mae'r llif gwaith presgripsiynu yn monitro cyflawniad y cynllun gweithredu rheoli meddyginiaethau ac yn adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau a'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig.

**91.** Mae'r cyfrifoldeb gweithredol dros reoli meddyginiaethau yn eglur ac mae rolau aelodau'r tîm rheoli presgripsiynu a meddyginiaethau gofal sylfaenol wedi'u diffinio'n eglur a staff yn gweithio'n dda â meddygon teulu, ond ceir bylchau sylweddol o ran capasiti ac mae'r BIP yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain.

**92.** Mae gan y BIP restr fformiwlâu gyflawn[1], sydd ar gael ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd a chaiff cydymffurfiaeth â'r rhestr fformiwlâu ei fonitro fel rhan o'r cymorth parhaus i bractisau meddygon teulu gan fferyllwyr y BIP. Ers ein hadolygiad o bresgripsiynu ar y rhyngwyneb yn 2010, mae'r BIP wedi gwneud gwelliannau yn

[1] Yng nghyd-destun rheoli meddyginiaethau, dylai rhestr fformiwlâu restru a phennu'r meddyginiaethau a'r gweithdrefnau triniaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd (fel arfer drwy'r pwyllgor rheoli meddyginiaethau) a'r cyd-destun y dylid eu defnyddio a'u presgripsiynu.

cynnwys gwella ansawdd protocolau rhannu gofal ac mae mentrau arloesol yn cael eu treialu i wella gwaith ar y rhyngwyneb.

**93.** Ar hyn o bryd, mae'r BIP yn gwario £65 miliwn ar bresgripsiynu mewn gofal sylfaenol ac mae'r gwariant yn debyg i'r cyfartaledd drwy Gymru o'i addasu i ystyried niferoedd pobl hŷn yn y boblogaeth. Mae'r BIP yn gosod ei gyllidebau presgripsiynu blynyddol ar sail gwariant hanesyddol, twf a phwysau costau. Y targed a osodwyd ar gyfer arbedion ar bresgripsiynu gofal sylfaenol oedd £4.3 miliwn yn 2012-13, ac roedd y targed hwn wedi'i gyrraedd ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff gwybodaeth fanwl ar gyrraedd targedau ariannol ei pharatoi'n fisol a'i chraffu gan y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau.

**94.** Mae'r BIP eto i gyflwyno manteision llawn presgripsiynu generig a chyfleoedd i bresgripsiynu'n fwy darbodus drwy wella rheolaeth ar ddulliau lliniaru poen a'r defnydd o statinau cost caffael isel. Mae fy ngwaith wedi nodi arbedion sylweddol o hyd at £1 miliwn yn y tri maes hwn pe bai lefelau presgripsiynu yr un fath â lefelau'r practisau meddygon teulu sy'n perfformio orau yng Nghymru. Mae gan y BIP gynlluniau ar hyn o bryd i sicrhau £370,000 o arbedion o wella presgripsiynu yn y meysydd hyn. Â chydnabod bod prisiau'n gallu bod yn eithaf cyfnewidiol ac y gallai'r ffigur arbedion gwirioneddol newid dros amser, bydd angen i'r BIP, drwy waith y tîm presgripsiynu a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgîl trefniadau cyllido tair blynedd newydd Llywodraeth Cymru, fynd ati i sicrhau'r holl arbedion posibl yn y meysydd hyn a meysydd eraill a nodwyd yn fy adolygiad.

**95.** Er bod y BIP wedi bod yn targedu rheoli clwyfau a bwydydd atodol yn llwyddiannus, mae arbedion yn dal i'w cael o wella presgripsiynu'r cynhyrchion hyn. Mae perfformiad y BIP mewn nifer o Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn agos at gyfartaledd Cymru neu'n rhagori arnynt, ond y BIP sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran presgripsiynu inswlin hirdymor ac mae o dan y cyfartaledd o ran presgripsiynu atalyddion ensym trawsnewid angiotensin (ACE), atalyddion pwmp proton a phresgripsiynau hypnotig ac ansiolytig, sy'n amlygu'r angen i symud ffocws cymorth presgripsiynu tuag at y dangosyddion hyn.

**96.** Nid yw'r BIP yn cydymffurfio'n dda â threfniadau adrodd y Cerdyn Melyn am adwaith anffafriol i gyffuriau ac yn ddiweddar, penododd hyrwyddwr Cerdyn Melyn i ddatblygu gwaith yn y maes; ond ceir trafferthion sylweddol gyda threfn adrodd am ddigwyddiadau Datix gan fod meddygon teulu wedi tynnu allan o'r broses. Tynnir sylw at wastraff meddyginiaethau yn y gofrestr risgiau ac mae'r BIP wedi rhoi nifer o weithgareddau ar waith i leihau gwastraff a sicrhau arbedion ariannol gan arddangos ei ymrwymiad i'r maes gwaith hwn.

## Mae'r BIP wedi gwneud cynnydd yn mynd i'r afael ag argymhellion yn codi o'm gwaith blaenorol ar staffio wardiau er bod angen gwaith pellach mewn nifer o feysydd pwysig

**97.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol ar asesu cynnydd y BIP wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n codi o waith archwilio blaenorol ar staffio wardiau. Mae canfyddiadau'r gwaith dilynol wedi'u crynhoi yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 1: Cynnydd wrth weithredu argymhellion yr archwiliad

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gwaith dilynol ar staffio wardiau | Deuthum i'r casgliad fod dealltwriaeth y BIP o'i adnoddau staffio wardiau wedi gwella er bod data anghyson yn dal yn broblem ac mae cyfleoedd o hyd i ail-gydbwyso lefelau staffio ar draws y gwahanol wardiau. Mae fy asesiad o gynnydd yn erbyn pob un o fy argymhellion wedi'i grynhoi isod:<br>• Yn gyffredinol, mae lefelau staffio wardiau yn is na'r cyfartaledd er bod y gymysgedd o raddfeydd yn nodweddiadol, ond mae'r costau'n uchel ac mae amrywio sylweddol o hyd ar draws y sefydliad gyda nifer o feysydd yn allanolynnau cymharol.<br>• Mae anghysonderau amlwg yn parhau yn nosbarthiad staff ar draws y BIP.<br>• Mae gan y BIP ddealltwriaeth well bellach o'i adnoddau staffio wardiau ond mae anghysonderau o hyd rhwng y wybodaeth ariannol, gwybodaeth y gweithlu a gwybodaeth am y wardiau.<br>• Mae'r data a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod 1 Hydref - 30 Tachwedd 2011. Ers yr ymarfer casglu data, defnyddiodd y BIP amrywiaeth o ddulliau ac elfennau staffio i lywio a rheoli ei lefelau staffio wardiau. Fel y soniwyd ym mharagraff 81 yr adroddiad hwn, mae'r BIP wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn staffio wardiau ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â phrinder staffio ac i ail-gydbwyso ei adnoddau staffio wardiau. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2013 |
| Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | Medi 2013 |
| Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol – Elusen | Rhagfyr 2013 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Staffio Wardiau – Adolygiad Dilynol | Gorffennaf 2013 |
| Diagnosteg Adolygu Gwybodaeth Wrth Gefn y GIG | Awst 2013 |
| Adolygu Presgripsiynu Gofal Sylfaenol | Medi 2013 |
| Asesiad Strwythuredig Blwyddyn 4 | Rhagfyr 2013 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2013 | Mawrth 2013 |

Hefyd, ceir nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn y BIP. Dangosir y rhain isod, gydag amcangyfrif o ddyddiadau ar gyfer gorffen y gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer gorffen y gwaith |
|---|---|
| Adolygiad o'r Gwasanaethau Orthopedig | Mawrth 2014 |
| Adolygiad o Godio Clinigol | Mawrth 2014 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £416,242 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o’r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â’r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk